OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2698 (Cy.230)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*10 Hydref 2006*
Yn dod i rym - -	*16 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran Polisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 16 Hydref 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 1999

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Asiantaeth Dalu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 1999(**3**) yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn lle paragraffau (c), (e) a (g) o reoliad 2 (Dehongli), rhodder y paragraffau canlynol—

"(c) "Commission Regulation" means Commission Regulation (EC) No 885/2006(**4**) laying down detailed rules for the application of the Council Regulation in relation to the accreditation of paying agencies";

"(e) "the Council Regulation" means Council Regulation (EC) No 1290/2005(**5**) on the financing of the common agricultural policy, as last amended by Council Regulation (EC) No 320/2006(**6**);";

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2005 (O.S. 2005/2766) ("y Gorchymyn"). Mae Erthygl 4 ac Atodlen 3 i'r Gorchymyn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau, o ran Polisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, sy'n rhychwantu daliadau sy'n cynnwys tir a leolir o fewn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1999/2223.
(**4**) OJ Rhif L171, 23.6.2006, t. 90.
(**5**) OJ Rhif L209, 11.8.2005, t.1.